# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Tachwedd 2018

Amser: 14.30 - 15.10

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5023

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AC<br>Mandy Jones AC<br>Dai Lloyd AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Dawn Bowden AC.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)279 - Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Lonydd Bysiau a Thraffig sy'n Symud (Sir Caerfyrddin) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)277 - Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(5)278 - Rheoliadau Safonau Trapio heb Greulondeb 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE

### 4.1 SL(5)276 - Rheoliadau Safonau Sootechnegol (Cymru) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad er mwyn tynnu sylw at faterion o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

### 4.2 SL(5)280 - Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad er mwyn tynnu sylw at faterion o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

## 5 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 5.1 WS-30C(5)10 – Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2018

Trafododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 5.2 WS-30C(5)11 – Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2018

Trafododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 5.3 WS-30C(5)12 – Rheoliadau INSPIRE (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2018

Trafododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 5.4 WS-30C(5)13 – Rheoliadau Darparu Gwasanaethau (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2018

Trafododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 5.5 WS-30C(5)14 – Rheoliadau’r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2018

Trafododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 5.6 WS-30C(5)15 – Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaethu (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2018

Trafododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 5.7 WS-30C(5)16 – Rheoliadau Da byw (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2018

Trafododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 5.8 WS-30C(5)17 – Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2018

Trafododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Prif Weinidog mewn perthynas â'r newid polisi ar gyfer tystysgrifau cymhwysedd ar gyfer lladd anifeiliaid, er mwyn egluro pam bod Llywodraeth Cymru wedi dilyn y dull hwn.

### 5.9 WS-30C(5)18 - Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaethu (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2018

Trafododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth. Nododd Aelodau fod y datganiad wedi'i osod 5 diwrnod ar ôl gosod y rheoliadau yn San Steffan a chytunwyd i fonitro datganiadau yn y dyfodol.

### 5.10 WS-30C(5)19 - Rheoliadau Piblinellau, Petrolewm, Gwaith Trydan a Stocio Olew (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â’r UE) 2018

Trafododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 5.11 WS-30C(5)20 -Rheoliadau Protocol Nagoya (Cydymffurfio) (Ymadael â’r UE) 2018

Trafododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

### 5.12 WS-30C(5)21 -Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2018

Trafododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r sylwebaeth.

## 6 Papurau i’w nodi

### 6.1 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid: Gofyn am ddatganoli cymhwysedd ar gyfer treth ar dir gwag yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.

### 6.2 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Bil Awtistiaeth (Cymru): Adroddiad Drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft yn amodol ar fân newidiadau.

## 9 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: Diweddariad

Trafododd y Pwyllgor y diweddariad a chytunodd i dderbyn a thrafod sylwebaeth ar bob datganiad yn ei dro ar gyfer y prosesau craffu safonol yn Senedd y DU.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Amaethyddiaeth

Nododd y Pwyllgor y briff a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## 11 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018: Diweddariad

Nododd y Pwyllgor y diweddariad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip.